# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 14EG MAWRTH, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gelfyddydau,**
**Theatr y Ddraig**
**Ffordd Jubilee**
**ABERMAW**
**Gwynedd**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341  424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 06/03/17)

## AELODAETH:

## Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Gethin Glyn Williams | Aelod Lleol Abermaw |
| Y Cyng. Louise Hughes | Aelod Lleol Llangelynnin |
| Y Cyng. Eryl Jones-Williams | Aelod Lleol Dyffryn Ardudwy |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Mr Mike Ellis | Aelod Pwyllgor Ras y Tri Chopa |
| Cynghorydd R A Williams | Barmouth Resort Improvement Group |
| Cynghorydd Julian Kirkham | Cyngor Cymuned Arthog |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Mrs Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Meirionnydd |
| Mr John Johnson | Cymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mr Mark James | Sefydliad y Bad Achub |
| Mr Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a’r Foryd |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet – Economi |
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Michael Sol Owen | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 4 - 12

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2016.

(Copi'n amgaeedig)

## 4. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG 13 - 29

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

(Copi'n amgaeedig).

## 5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

a. Rheolaeth Pwynt Penrhyn
b. Llithrfa Pwynt Penrhyn
c. Diweddariad ar statws Gwobr y Faner Las

## 6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 7 Tachwedd 2017.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2016 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llŷr B. Jones | - | Uwch Reolwr – Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Arthur Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr Abermaw |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet - Economi), Cyng. Rob Williams (BRIG), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Y Cyng. David Richardson (sylwedydd yn cynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gethin Glyn Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.**

3. **DATGANIAD O GYSYLLTIAD PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

(i) Cyng. Julian Kirkham – yn perthyn i un o'r gweithredwyr fferi
(ii) Mr Martin Parouty – yn aelod o'r Clwb Hwylio ac yn weithredwr masnachol yn yr Harbwr

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 2.1 (a) – Gaeafu Cychod**

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, nododd yr Harbwr Feistr nad oedd wedi derbyn unrhyw gais ar gyfer gaeafu cychod ar ran o faes parcio'r Cyngor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn diweddaru'r Pwyllgor ar faterion rheolaethol Harbwr Abermaw.

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad

Darllenodd yr Uwch Swyddog Harbyrau yr adroddiad ynglyn a chynnal a chadw i'r aelodau a gwnaed cyfeiriad penodol i'r isod:

**(a) Harbwr Abermaw**

- O ran prysurdeb yn yr Harbwr gwelwyd sefydlogrwydd o ran niferoedd gyda 5 cwch wedi gadael ar ddiwedd 2015/16. Fe fydd yr Harbwr Feistr yn cysylltu gyda'r cwsmeriaid i geisio derbyn rheswm dros adael yr Harbwr.
- Gwelwyd cynnydd yn y nifer o gychod pŵer a badau dwr personol a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth á 2015 a braf ydoedd nodi bod y cwynion wedi lleihau o safbwynt y badau dwr personol a chysondeb yn y niferoedd a gofrestrir
- Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â chwynion ac a oedd hyn oherwydd nad oedd bwiau wedi eu gosod, esboniwyd drwy drafodaeth y cafwyd cytundeb gan y Pwyllgor Ymgynghorol i beidio rhoi bwiau allan ond os yw yn creu pryder, gellir ail-ystyried y sefyllfa a chadarnhawyd bod bwiau I'r dwyrain o'r Pont y Rheilffordd wedi ei osod. Fodd bynnag, nodwyd ymhellach nad oedd y Gwasanaeth wedi derbyn cwyn ynglyn a chamddefnydd gan gychod pwer yn yr Harbwr
- Ychwanegwyd bod gan y Cyngor drefniadau ffurfiol a phroses i'w ddilyn ar gyfer derbyn cwynion a bo'r Gwasanaeth yn cydymffurfio a chysylltu gyda'r swyddogion priodol pan fo cwyn yn cael ei dderbyn.
- O safbwynt derbyn cwynion llafar, eglurwyd y drefn sef bod unrhyw gwyn yn cael ei nodi yn y dyddiadur yn swyddfa'r Harbwr fel sydd yn digwydd ymhob Harbwr arall y Cyngor. Mae unrhyw gwyn ysgrifenedig yn cael ei gofnodi drwy drefn Cwynion y Cyngor
- Bod y Cod Diogelwch Morwrol yn berthnasol i bob Harbwr ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fe fydd archwiliwr allannol yn treulio amser gyda'r Harbwr Feistr i adolygu'r cod ac sustemau'r holl harbyrau dan reolaeth y Cyngor ym mis Ionawr 2017.
- Yn ystod yr haf, ni chodwyd unrhyw fater o sylw sy'n berthnasol i ddyletswyddau statudol yr Harbwr a hyderir y bydd hyn yn parhau
- Cyfeiriwyd at y trychineb ym mis Awst lle gollodd dau fachgen ifanc eu bywydau a thalwyd teyrnged i staff yr Harbwr, staff y Gwasanaeth, y Bad Achub a'r gymuned leol am eu hymdrechion clodwiw yn ystod y digwyddiad hwn
- Yn sgil y digwyddiad uchod, cynhaliwyd cyfarfod gydag Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd, ac asiantaethau perthnasol eraill i drafod materion diogelwch y cyhoedd ac yn benodol cynllun ar gyfer arwyddion er ceisio gwella gwybodaeth i ymwelwyr a defnyddwyr y traeth i'r dyfodol
- Bu i un cwch dorri'n rhydd o'i angorfa yn ystod gwyntoedd cryf a bu'n rhaid cau Pont y Rheilffordd am gyfnod byr er mwyn galluogi Gwylwyr y Glannau a criw y Bad Achub I dynnu'r cwch oddi ar y bont. Cadarnhawyd na chafodd difrod ei achosi i'r bont yn dilyn y digwyddiad hwn. Fe archwilwyd y rheilffordd gan arbenigwyr rheilffyrdd er sicrhau na chafodd difrod ei achosi i'r bont.
- O safbwynt trafodaethau ynglyn ag achubwyr bywydau ar y traeth, esboniwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r RNLI. Nodwyd bod trefniadau presenol sydd mewn

lle ar hyd yr arfordir yn gyson. Nodwyd bod y Cyngor yn barod i ystyried datrysiadau lleol mewn ymateb i broblemau lleol. Nodwyd bod goblygiadau ariannol sylweddol ynglyn a phenodi achubwyrbywydau ar y traethau. Yng nghyd-destun arwyddion, cyflwynwyd pecyn o awgrymiadau gan y Bad Achub o sut i wella, a phenderfynwyd i weithredu rhai o'r awgrymiadau erbyn 2017, ond fod yn bwysig nodi byddai hyn yn rhan o drafodaeth ehangach.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a statws y Faner Goch, esboniwyd y golygir perygl os yw'r Faner Goch yn chwifio.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Materion Gweithredol**

- Bod buddsoddiadau wedi eu gwneud o safbwynt cymhorthion mordwyo a calonogol ydoedd nodi bod y bwiau i gyd ar eu safle
- Bod bwi newydd wedi ei osod gan Dŷ'r Drindod ar ran Dwr Cymru i farcio peipen arllwys dŵr i'r môr. Datganwyd wrth Dwr Cymru a Ty'r Drindod fod angen tynnu gweddillion y cymhorthydd oddi ar y beipen fel mater brys gan fod y polyn sydd weddill yn achosi perygl i gychod sydd yn tramwyo yn yr ardal yn enwedig ar ben llawn
- Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn a gosod bwi yn lle polyn, eglurwyd bod bwi yn gallu cymryd y tywydd yn well a thueddiad i bolyn gael ei ddifrodi ond ni chafodd y Gwasanaeth Morwrol y cyfle i roi sylwadau
- Deallwyd bod y Cyng. Rob Triggs wedi ysgrifennu at Dŷ'r Drindod yn mynegi pryder am y perygl yn deillio o'r polyn ac ategodd sawl aelod bryder am ddiogelwch morwyr ac y dylid dwyn y mater i sylw Tŷ'r Drindod yn ddi-oed

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Rhaglen Waith**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Harbyrau rhaglen waith ar gyfer yr Harbwr o Hydref 2016 i Fawrth 2017 ac fe dywyswyd yr Aelodau drwy'r rhestr a nodwyd ar y rhaglen waith.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn a'r llwyth gwaith, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai cymorth ar gael gan staff yr Harbyrau eraill i ymgymryd â rhai dyletswyddau. Nodwyd ymhellach bod cyflogaeth y ddau gymhorthydd harbwr Abermaw ac Aberdyfi wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd Rhagfyr 2016.

Derbyniwyd 8 cais gan wirfoddolwyr i gynorthwyo yn yr Harbwr a'r cam nesaf fyddai cynnal asesiadau risg a thrafod y math o waith i'w gyflawni gan sicrhau bod y gwaith yn dderbyniol iddynt. Pwysleisiwyd am yr angen i drefniadau cywir fod mewn lle a diolchwyd am y diddordeb a'r brwdfrydedd. Cyflwynwyd diolch i'r unigolion a fu wedi datgan parodwydd i wirfoddoli yn yr Harbwr.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

(ch) **Materion Eraill**

Nodwyd ers i'r pontŵn gael ei osod ar wal y cei ger adeilad yr "SS Dora" roedd y Gwasanaeth Morwrol wedi cyfrannu oddeutu £20,000 i'w gynnal a'i gadw hyd yma, yn ogystal â'i archwilio yn rheolaidd. Nodwyd fod y tywydd a thonnau yn cael effaith niweidiol ar y pontŵn. Tra'n derbyn bod y pontwn wedi bod o fudd i Abermaw gyda morwyr yn cael gwell mynediad at y dŵr, fodd bynnag nid oedd y Gwasanaeth Morwrol o'r farn, yn dilyn derbyn sylwadau gan Beiriannydd y Cyngor, y gellid ail osod y bysedd ar brif strwythur y pontwn i'r dyfodol gan nad oeddynt yn addas i'r lleoliad hwn. Eglurwyd bod y bysedd wedi eu tynnu oddi ar y pontwn ar 31 Hydref 2015 oherwydd eu bod yn rhoi

straenar brif strwythur y pontwn ac wedi creu sawl crac ifframwaith y pontwn. Ar hyn o bryd mae'r bysedd wedi eu angori yn ddiogel yn ardal y Baddon. Nodwyd ymhellach bod gwaith sylweddol i'w gyflawni i atgyweirio'r pontwn. Fe fydd yn anorfod derbyn cadarnhad ynglyn a perchenogaeth y pontwn ynghyd a chynllun cynnal a chadw gan y grwp yn fuan.

Nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio bod grŵp bychan a ddaeth at ei gilydd wedi derbyn grantiau sylweddol sef £50k o'r Loteri Genedlaethol a £20k gan Barc Cenedlaethol Eryri ar gyfer prynu'r pontwn ac roedd o'r farn bod yn rhaid ei atgyweirio a'i fod yn ased gwerthfawr i Abermaw ac mai ei brif bwrpas ydoedd i gychod ymwelwyr fedru cael mynediad hwylus i fynd a dod o'r harbwr ac nid i angori cychod oddi arno yn barhaol. Roedd yn ymwybodol bod y Clwb Hwylio wedi cynnig £2,000 tuag at y costau cynnal a chadw ac adnewyddu'r rhannau a fu wedi ei difrodi. Ategwyd aelod arall bod y pontwn yn boblogaidd ac yn y tymor byr, oherwydd bod y bysedd wedi eu tynnu oddi arno, bod bwlch ar y pontwn sydd yn rhwystro defnydd ohono.

Nododd y Cadeirydd bod angen eglurhad o'r sefyllfa ynglyn a pherchnogaeth a chael trefniadau mewn lle ar gyfer gwell cyfathrebu. Awgrymwyd ymhellach y dylid sefydlu Is-grŵp gyda chynrychiolaeth o'r mudiadau perthnasol i drafod y ffordd ymlaen ac yn y cyfamser gofynnwyd i gynrychiolydd y Clwb Hwylio gysylltu gyda gwneuthurwyr y pontwn i ganfod a oedd yn bosibl ei atgyweirio. Awgrymwyd hefyd i ofyn i'r peirianyddion lleol i archwilio ei gyflwr.

**Penderfynwyd: (a) Sefydlu Is-grŵp i gynnwys y cynrychiolwyr o'r mudiadau fel a ganlyn:**

**Dr John Smith, Grŵp Mynediad Traphont Abermaw**
**Mrs Wendy Ponsford, Clwb Hwylio Meirionnydd**
**Mr Martin Parouty, Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a'r Foryd**
**Y Cyng. Rob Triggs, Cyngor Tref Abermaw**
**Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig**
**Harbwr Feistr**

**(b) Yn y cyfamser, cyn galw cyfarfod o'r Is-grŵp uchod, bod yr aelodau canlynol yn ymchwilio ymhellach i gyflwr y pontwn a phosibilrwydd o'i atgyweirio fel a ganlyn:**

**Mrs Wendy Ponsford i gysylltu gyda'r gwneuthurwyr**
**Y Cyng. Rob Triggs i gysylltu gyda'r peirianyddion i archwilio ei gyflwr**

**(d) Trwyddedau Ysgraff**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y derbyniwyd cwynion am ymddygiad y gweithredwyr ysgraff eleni ac o'r herwydd cyflwynwyd cynllun drafft gerbron y Pwyllgor yn dangos llwybr mordwyo i bob ysgraff ei ddilyn. Teimlwyd y byddai dilyn un cwrs yn rhwystro'r cychod rasio yn erbyn ei gilydd a thorri ar draws cychod eraill

Esboniwyd y broses ynglyn â thrwyddedu'r ysgraff a sicrhawyd bod trefniadau mewn lle ar gyfer archwiliadau ar y tir ynghyd ag archwiliad o'r cychod ar y dŵr.

Er yn datgan diddordeb, rhoddwyd hawl i un o weithredwyr yr ysgraff, fynegi ei farn gan nodi bod gweithredwyr ysgraff yn brofiadol ac y byddent yn asesu'r amodau ac yn dewis y llwybr mwyaf diogel.

Wrth ateb cais am sylwadau ynglŷn â 'Thrwyddedau Ysgraff' a 'Mordwyo' awgrymodd aelod y byddai peilot o dan rhai amgylchiadau (fel gorlanw ar drai) yn dewis morwydo ymhellach i'r dwyrain, i ffwrdd o'r sianel ac yn union ar draws yr harbwr i gyfeiriad deheuol gan felly osgoi Trwyn y Gwaith

(morglawdd Ynys y Brawd) a dŵr garw sy'n gallu datblygu yn y fynedfa i'r harbwr pan fo'r gwynt yn erbyn y llanw.

Awgrymodd y byddai'r dewis yma yn unol ag arferion mordwyo diogel gan y gallai rhoi mwy o le i'r peilot symud; mwy o amser i gymryd camau cadarnhaol i osgoi unrhyw drybeini pe byddai angen (fel y cwch oedd â mynediad wrth ddod i gysylltiad â chwch arall oedd yn dod i'r harbwr), golwg llai cyfyngedig a thaith lyfnach.

Fe wnaeth yr aelod hefyd atgoffa'r pwyllgor fod peilotiaid yn rheolaidd yn cludo teithwyr i ac o'u cychod ac wrth ddarparu teithiau cwch, a byddai angen cynllunio llwybr amgen ar gyfer y rhain.

Mynegodd yr aelod hefyd y farn fod peilotiaid yr ysgraffau, oedd â phrofiad sylweddol o fordwyo'r dyfroedd yn yr harbwr, mewn sefyllfa gref iawn i wneud penderfyniadau da am beilota diogel.

O ystyried tymor 2016, roedd yr aelod o'r farn (o ran y berthynas dda rhwng y peilotiaid) fod y tymor wedi bod yn un da gyda diolch i'r awgrymiadau a'r anogaeth gafwyd gan yr Uwch Swyddog Harbyrau a Harbwr Feistr Abermaw; ymdrechion y peilotiaid eu hunain a'r newidiadau wnaed ar y cyd i weithdrefnau gweithredu'r gwasanaeth ac yn olaf oherwydd fod y gwasanaeth wedi gweithredu'n gyson gyda thri cwch yn darparu seddau i bedwar ar hugain, roedd y galw am y gwasanaeth yn cael ei gwrdd yn gyfforddus.

I gloi, nododd yr aelod ei fod yn barod i drafod awgrymiadau gyda staff y Gwasanaeth Morwrol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd os oedd modd ystyried opsiwn ar gyfer llwybr mordwyo a fyddai'n addas i'r gweithredwyr
- Bod diogelwch y teithwyr yn bwysig dros ben
- Rhyddhawyd tair trwydded eleni a chaniatawyd pedwaredd drwydded ar gyfer teithiau i fyny'r aber.

**Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo i'r ysgraff ddefnyddio'r llwybr mordwyo fel amlinellir yn y cynllun a gyflwynwyd i'r Pwyllgor pan fydd y llanw yn caniatáu, ac yn defnyddio llwybr amgen i'w drafod a chytuno gan y gweithredwyr a'r Harbwr Feistr.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â threfn trwyddedu cychod pleser i'r cyfarfod nesaf.**

**(e) Materion Ariannol**

Cyfeiriwyd at y fantolen ariannol a thywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r gyllideb gan nodi y rhagwelir tanwariant ar incwm yr Harbwr o £11,332.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(f) Ffioedd a Thaliadau**

Rhagwelir cynnydd o 2% ar ffioedd a thaliadau ar gyfer 2017/18.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(ff) **Digwyddiadau**

Diolchodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i bawb a oedd ynghlwm â'r trefniadau'r digwyddiadau yn Harbwr Abermaw a calonogol ydoedd gweld cynifer o gychod yn Ras y Tri Chopa a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2016. Tynnwyd sylw y bydd y ras yn dathlu pen-blwydd yn 40oed yn 2017.

Cynhelir gŵyl "Paddlefest y Fawddach 2017 ar 15/16 Gorffennaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 6. MATERION A YSTYRIWYD AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

### (a) Cynllun rheoli Pwynt Penrhyn

Diolchodd y Cyng. Julian Kirkham, Cyngor Cymuned Arthog, i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am ei gymorth a'i gefnogaeth mewn goresgyn rhai o broblemau parcio ym Mhwynt Penrhyn.

Fodd bynnag, roedd faniau campio o bob maint yn anwybyddu'r arwydd "Dim Parcio Dros Nos". Nodwyd bod rhywun wedi troi'r arwydd fel nad ydyw yn weledol a gofynnwyd a fyddai modd i'r Gwasanaeth Morwrol ail-osod yr arwydd. Nodwyd ymhellach bod faniau campio yn enwedig y rhai mwy wedi cymryd i barcio yn yr ardal uwchben y llithrfa ac yn anwybyddu'r arwydd ac awgrymwyd y gall arwydd arall "Dim Parcio Dros Nos" gael ei osod lle mae'r cylch bwi achub bywyd.

Deallir hefyd bod Adran Trafnidiaeth yn bwriadu rhoi arwyddion 30 m.y.a. ar y ffordd i'r pwynt. A oedd hyn yn golygu y gallai cerbydau sydd wedi parcio dros nos ar y briffordd fod yn destun erlyniad. Ychwanegwyd nad oedd mannau parcio ar y cylch troi. Roedd un o aelodau'r Cyngor Cymuned wedi ymchwilio i is-ddeddfau ynglyn a "gwersylla gwyllt".

Gwnaed cais i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am bwynt cyswllt yn yr Adran Gyfreithiol fel bo Clerc Cyngor Cymuned Arthog yn gallu cysylltu i wneud cais am gyfarfod ac i archwilio'r posibilrwydd i Bwynt Penrhyn fod yn "bwynt arbrawf".

Nodwyd bod Rheilffordd Fairbourne yn cytuno y gellid gosod giât i stopio faniau campio ddefnyddio'r ardal uwchben y llithrfa; amcan cyntaf y Cyngor Cymuned fyddai gosod y giât a gosod clo gyda chod pwrpasol, lle y gellir ei roi i ddeiliad "bona fide" am drwydded ddi-dâl i lansio eu cwch, ar ôl gwneud cais i Gyngor Cymuned Arthog am drwydded.

Mewn ymateb, adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Bod y Gwasanaeth Morwrol wedi buddsoddi mewn arwyddion a chytunwyd i roi giât yma ond derbyniwyd gwrthwynebiad a bu'n rhaid ail-ystyried oherwydd bod y ffordd yr unig fynediad i safle lansio cychod Pwynt Penrhyn
- Croesawyd bod Adran Trafnidiaeth wedi cytuno i roi arwyddion 30 m.y.a. ar y ffordd i'r pwynt
- Bod problemau parcio dros nos yn bodoli ledled y Sir a'i fod yn anodd ei reoli
- Cytunwyd y byddai'r Harbwr Feistr yn gosod arwyddion ychwanegol ar y safle cyn diwedd mis Mawrth 2017 ac yn trwsio'r arwydd a fu wedi ei ddifrodi cyn diwedd 2016

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Cynllun Busnes (Cynllun Datblygu'r harbwr)**

(i) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a chynllun i ddatblygu'r harbwr, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd gan y Gwasanaeth Morwrol y gyllideb a'r adnoddau i arwain ar ddatblygiadau.

Nododd y Cadeirydd ymhellach bod y Grŵp Llywio Cymunedol yn ystyried prosiect ehangach a'i fod yn gynamserol i drafod cynllun datblygu'r harbwr hyd nes y gwelir beth fydd adwaith datblygiad y Grŵp Llywio dros y flwyddyn nesaf.

(ii) Yng nghyd-destun ymholiad ynglyn a'r tir tu ol i swyddfa'r Harbwr Feistr, gofynnwyd i'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr edrych ar y posibilrwydd ar gyfer datblygu'r tir yn fannau parcio, ac adrodd yn ol i Gyng. Rob Triggs.

(iii) Nododd y Cyng. Rob Triggs bod gofod sylweddol ar y cei yn Aberamffra y gellir gwneud defnydd ohono.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr unedau yn Aberamffra bellach wedi eu gwerthu ac y byddai'n rhaid ymgynghori gydag Uned Amddiffyn yr Arfordir ynglyn a chyflwr y wal. Awgrymwyd trafod syniadau'r Cyng. Triggs (unedau o fodurdai) yn uniongyrchol gyda'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr mewn ymgynghoriad a'r Uned Amddiffyn yr Arfordir.

**(c) Polyn peryglus yng ngwaelod y llithrfa yn Harbwr Aberamffra**

Nodwyd y gwnaed ymdrech i dynnu'r polyn ond nid oedd yn bosibl i'w dorri.

**(ch) Diweddariad ynglyn a sefyllfa tywod**

Nododd y Cadeirydd bod adroddiad drafft ar gael ac y bydd ar gael i'r cyhoedd unwaith y bydd wedi ei gadarnhau.

**(d) Bagiau Tywod / Giât ar frig y llithrfa**

Gofynnwyd a oedd modd cau'r giât ar frig y llithrfa yn enwedig ar lanw uchel.

O safbwynt y bagiau tywod, deallir nad yw'r Cyngor yn cyflenwi bagiau tywod ac amlygwyd pryder bod rhannau o Abermaw yn dioddef o lifogydd ac y dylid ail-ystyried darparu bagiau tywod. Cyflwynwyd llythyr i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar ran perchennog y Last Inn yn mynegi pryder am yr uchod i'w gyflwyno ymhellach i Uned Amddiffyn yr Arfordir.

Mewn ymateb i'r uchod, sicrhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig na fyddai unrhyw anhawster ynglyn a chloi'r giât ar frig y llithrfa yn ystod y gaeaf ac ar lanw uchel. Bydd yr Harbwr Feistr yn sicrhau fod y giat ar glo dros gyfnod llanw uchel (Springs) ac yn cael ei agor pan bydd y llanw yn lleihau (Neaps)

**(dd) Gorsaf Danwydd Petrol**

Gofynnodd cynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a fyddai modd ystyried cael cyfleuster tanwydd petrol i'r harbwr. Tra'n derbyn bod elfennau iechyd a diogelwch i'w hystyried, gwelwyd y cyfleuster yn fodd o greu incwm ychwanegol.

Mewn ymateb, addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ystyried y mater ymhellach

yn nhermau risgiau a rheoliadau perthnasol ac y byddir yn adrodd ar ei ganfyddiadau i gyfarfod nesaf y pwyllgor ymgynghorol hwn ym mis Mawrth 2017.

**(e) Angorfeydd**

(i) Taliadau Blynyddol - pe na fyddai angorfa wedi ei ddefnyddio a oedd polisi i godi tal is neu ffi cadw? Os nad oedd, a fedrai'r Cyngor ystyried polisi o'r fath?

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig pe byddai unigolyn yn awyddus i gadw angorfa, byddai'n rhaid talu'r ffi. Os nad yw unigolyn yn gallu lansio oherwydd rhesymau dilys, fe fyddai'r Harbwr Feistr yn hyblyg ynglyn a thaliadau.

(ii) Cadarnhad o fanyleb offer gwely'r môr. A oes unrhyw amodau ar gyfer offer gwely'r môr, a yw hyn yn gymwys i'r holl angorfeydd neu a yw'r rhai ar gyfer angorfeydd dros dro yn wahanol i angorfeydd parhaol? Pwy sy'n gyfrifol am angorfeydd, dros dro a pharhaol, pe byddent yn llusgo ac yn achosi niwed i drydydd parti?

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yn rhaid i'r angorfeydd cydymffurfio a manyleb berthnasol sy'n cynnwys maint y cadwyni ac angor. Rhaid i berchennog pob angorfa gyflwyno tystysgrif cymwys briodol i'r Harbwr Feistr cyn angori cwch ar yr angorfa. Ni fydd yr Harbwr Feistr yn archwilio pob un angorfa gan nad yw hyn yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Morwrol ond o safbwynt angorfeydd y Cyngor, bydd yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn eu harchwilio.

O safbwynt math yr angorfa, nodwyd bydd y Gwasanaeth yn ystyried hyn ac yn cadarnhau eu penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd y byddai'r Harbwr Feistr yn anfon polisi angorfeydd allan i'r aelodau.

(iii) O safbwynt poeni am ddiogelwch, gofynnir bod angorfeydd y Tri Chopa yn y fynedfa i'r harbwr yn cael eu marcio gyda bwi goleuedig.

Mewn ymateb, yn wyneb y ffaith ei bod yn annhebygol y byddai'r cychod yn hwylio i mewn yn ystod y nos, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai modd rhoi rhybudd i forwyr yn hytrach na rhoi bwi goleuedig.

**(f) Pysgod Marw**

Mynegwyd pryder am faterion amgylcheddol yn sgil y ffaith y gwelwyd gweddillion dros 270 o hyrddiaid wedi eu ffiledu yn llanast yn yr harbwr.

Mewn ymateb, gwerthfawrogwyd derbyn y wybodaeth gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig. Ychwanegwyd, bod dyletswydd ar unigolion i ddatgelu pwy sydd yn gyfrifol, os ydynt yn ymwybodol o'r achos ac yn ymwybodol pwy sydd yn gyfrifol am bysgota yn anghyfreithlon yn yr harbwr.

**(g)** Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol ynglyn a gwelliant mewn derbyn tystysgrifau angorfeydd, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod angen tynhau gweithrediadau'r tystysgrifau ac fe fyddir yn trafod ymhellach gyda'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r swyddogion perthnasol weithredu yn unol a'r awgrymiadau wnaed uchod.**

7. **PROSIECTAU GWASANAETHAU ABERMAW**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, restr o brosiectau gwasanaethau Abermaw drafodwyd gan y Grwp Llywio Cymunedol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r rhestr.**

8. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 14 Mawrth 2017.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 1.15 p.m.**

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **14 Mawrth 2017** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

**1. Cod Diogelwch Morwrol**

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y Gwasanaeth. Mae hefyd yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol Harbwr Abermaw.

1.2 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 neu ar ddechrau 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

1.3 Roedd y Gwasanaeth yn disgwyl adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ym mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd diffyg capasiti nid yw'r archwiliad wedi ei gynnal ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i ail drefnu'r adolygiad. Rhagwelir bydd yr adolygiad ym mis Medi 2017.

**2. Materion Gweithredol**

2.1 **<u>Mordwyo</u>**

2.1.1 Fe fydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Abermaw gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod yn ar y 1af Awst 2017. Yn sgil y buddsoddiadau sylweddol diweddar rhagwelir bydd yr adroddiad yn cadarnhau parhad mewn gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr.

2.1.2 Yn y man nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr mewn grym yn Abermaw.

2.1.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.

2.1.4 Fe fydd yn fwriad i gynnal a chadw'r Bwi Tramwyo sydd allan ar ei safle gan ddod a'r bwi presennol i'r lan fel gallai staff ei gynnal a chadw. Fe ragwelir bydd y gwaith hwn yn cychwyn ym mis Medi. Fe fydd angen i'r Gwasanaeth gomisiynu contractwr i ymgymryd â'r gwaith i osod bwi Newydd ac i gludo'r bwi presennol i'r cei mewn da bryd. Mae cymhorthydd y Morglawdd angen ei gynnal a chadw ble bwriedir ystyried amgylchu gwaelod y cymhorthydd gyda choncrid. Bydd hyn yn lleihau dirywiad yng nghyflwr y brîf bolyn. Mae cymhorthydd y 'Clwyd' angen ei beintio ac fe fydd staff yr Harbwr yn ymgymryd â'r gwaith hwn pan fydd y llanw a'r tywydd yn caniatáu.

2.2 **<u>Cynnal a chadw</u>**

2.2.1 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a gafodd ei gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016 a hyn yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd ger bron Aelodau yn yr Hydref. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.2.2 Mae gwaith wedi ei gwblhau ar gynnal a chadw ysgolion ar furiau'r Harbwr. Mae angen adnewyddu dwy ysgol yn ardal grisiau'r ysgraff ac rhagwelir bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn diwedd mis Mai.

2.3 **Materion Staff**

2.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Abermaw (tymhorol) i ben ar y 30ain Medi 2016. Er na fod Cymhorthydd Harbwr wedi cael ei leoli yn Abermaw dros fisoedd y gaeaf fe gafodd cytundeb deilydd y swydd ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2016 gyda'r swydd yn cael ei leoli ym Mhorthmadog. Er sicrhau parhad gwasanaeth a chyflawni gwaith allweddol mae'r swyddi 'tymhorol' wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 a hyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos, sef Dydd Mawrth, Mercher ac Iau.

2.3.2 Mae'r ddau gymhorthydd harbwr sydd yn parhau gyda chytundeb gwaith yn rhan o'r tîm ehangach oddi fewn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn cefnogi a galluogi'r Gwasanaeth er ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf. Fe fydd y swyddi yn dychwelyd yn llawn amser yn harbyrau Abermaw, Aberdyfi a Porthmadog o'r 1af Ebrill 2017 hyd at 30 Medi 2017.

2.4 **Materion Gweithredol**

2.4.1 **Arwyddion Diogelwch**. Mae'r Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub, wedi cychwyn ar waith cynnal adolygiad o arwyddion diogelwch ardal yr Harbwr a thraeth Abermaw. Fe fydd y Gwasanaeth yn ymateb i ganlyniad yr archwiliad. Mawr obeithir bydd unrhyw arwydd newydd yn cyfrannu at ddiogelwch ar y rhan hon o arfordir Gwynedd.

2.4.2 **Angorfeydd - Ras Y Tri Phigyn.** Mae cais wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Ras Y Tri Phigyn yn ceisio caniatâd i osod blociau concrid ac angorfeydd 'ôl a blaen' yn ardal ble mae dwr dwfn parhaol yn yr Harbwr. Y bwriad yw gosod hyd at 15 angor math bloc concrid yn yr Harbwr. Mae Pwyllgor Ras Y Tri Phigyn o'r farn fod y cynllun yn sicrhau angorfeydd safon uchel ar gyfer eu cystadlaethau.

2.4.3 Atodir copi o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan Bwyllgor Ras Y Tri Phigyn yn dangos maint y blociau, dyluniad yr angorfeydd a lleoliad yr angorion. Er bod yna angorfeydd gydag angor math bloc concrid yn parhau yn Harbwr Abermaw mae'r Cyngor wedi annog perchenogion angorfeydd i ddefnyddio angorion pwrpasol yn hytrach nac angorion math bloc concrid. Efallai bydd rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn ymwybodol fod 'cynllun dyluniad angorfa' eisoes wedi ei gyflwyno ac wedi ei fabwysiadu gan Bwyllgorau Ymgynghorol yn y gorffennol. Atodir copi o'r argymhellion a gyflwynwyd er sylw a barn yr Aelodau.

2.4.4 Gofynnir fod y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyflwyno sylwadau ar y cynllun angorfeydd arfaethedig a gyflwynwyd gan Bwyllgor Ras Y Tri Phigyn. Gofynnir hefyd am sylwadau'r Pwyllgor ar y ddogfen sydd yn argymell ansawdd a gwneuthuriad angorfeydd a fu eisoes wedi ei gyhoeddi gan y Cyngor.

2.4.5 Pe caniateir i'r cynllun a gyflwynwyd bwrw ymlaen yna bydd hyn yn fuddsoddiad sylweddol (£5K-£7K) gan Bwyllgor Ras Y Tri Phigyn.

2.4.6 **Symud Tywod - 2017**. Rhagwelir bydd gwaith symud tywod o'r traeth yn cychwyn ar ddechrau mis Mawrth 2017. Bydd cyfnod y gwaith yn ddibynnol ar y maint tywod sydd wedi casglu yn yr ardal. Rhagwelir bydd tywod sydd wedi casglu ar y promenad a'r morglawdd hefyd yn cael ei glirio fel rhan o'r cytundeb.

2.4.7 **Pontwn Wal y Cei.** Ar y 1af Chwefror 2017 fe gynhaliwyd cyfarfod i drafod perchenogaeth cyfrifoldebau, trefn cynnal a chadw a rheolaeth y pontwn at y dyfodol. Roedd grwpiau a mudiadau lleol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref gyda chynrychiolaeth yn y cyfarfod. Penderfynwyd byddai cynrychiolwyr yn trafod ac yn ystyried trosglwyddo 'perchenogaeth' y

pontwn i grwp neu fudiad lleol . Gan nad yw'r pontwn ym mherchenogaeth y Cyngor nid yw'r Cyngor mewn unrhyw sefyllfa i barhau i gynnal a chadw a rheoli'r pontwn at y dyfodol.

2.4.8 **Ystorfa Betrol.** Yn y cyfarfod diwethaf gofynnodd y Pwyllgor i'r Gwasanaeth edrych i'r posibilrwydd bod petrol yn cael eu storio a'i werthu ar y cei a hyn ar gyfer cychod pwer yn unig ac nid ar gyfer cerbydau. Yn unol â'r gofyn mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar waith i edrych ar y rheoliadau sydd mewn grym. Mae ein hymholiadau a thrafodaethau cychwynnol gyda swyddogion Safonau Masnach wedi dangos cymhlethdodau a chyfyngiadau difrifol ar gyfer storio a gwerthu petrol yn enwedig mewn safle cyfyng.

2.4.9 Er na fod unrhyw reolau neu gyfyngiadau yn cadarnhau na fydd petrol yn cael ei storio a'i gwerthu mae rhaid ystyried cost sefydlu a darparu gwasanaeth yn erbyn unrhyw elw a wnaethpwyd drwy werthu petrol.

2.4.10 **Trwydded Perchennog a Thrwydded Cychwyr.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi caniatáu cyfanswm 4 Trwydded Perchennog a 6 Trwydded Cychwyr yn Harbwr Abermaw. Mae tair trwydded wedi eu caniatáu ar gyfer ysgraff a fydd yn cludo teithwyr rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn gydag 1 Trwydded yn cael ei ganiatáu ar gyfer cwch a fydd yn cynnig mordeithiau oddi amgylch yr aber hyd at y dollbont yn unig. Mae manylion a gofynion y trwyddedau a gofynion offer diogelwch a fydd angen ei gario ar fwrdd ysgraff eisoes wedi eu cadarnhau gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

2.4.11 Gofynnir am farn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar y canlynol: -

- Ystyried cyfyngu nifer Drwyddedau Perchennog a ganiateir yn Harbwr Abermaw.
- Ystyried sefydlu uchafswm Trwyddedau Perchennog a ganiateir i weithredu yn yr harbwr
- Ystyried sefydlu cyfnod a nifer ddyddiau pendant ble mae gofyn i ddaliwr Trwydded Perchennog weithredu yn yr Harbwr
- Ystyried sefydlu isafswm oriau gweithredu (oddi fewn tywydd ffafriol fel y bu eisoes wedi ei gyhoeddi)
- Cyflwyno unrhyw welliannau neu ofynion pellach a fu i'w ystyried fel amodau i Drwydded Perchennog neu Drwydded Cychwyr

## 3. Materion Ariannol

3.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol.

3.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.
- Cynnal a chadw ysgolion

3.3 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Aberdyfi 2017 eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau. Cadarnheir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth awgrymwyd fod ffioedd Harbwr Abermaw yn cynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2017/18. Bydd cynnydd mewn ffi angori cychod masnachol yn codi 6% yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi.

3.4 Yn 2017 bydd angen i'r Cyngor ychwanegu ffi am bob angorfa a hyn ym mhob Harbwr sydd dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r ffi wedi ei ychwanegu gan Stad Y Goron sydd yn hawlio £25.00 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr harbwr. Mae gofyn fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, yn codi ac yn casglu'r ffi hwn ar ran Stad Y Goron. Ni does TAW ynghlwm a'r ffi ychwanegol. Mae'r ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyn fod y taliad hwn yn cael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

3.5 Pwysleisiwyd mai drafft yn unig a fydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau hyd yma ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio cyn diwedd Mawrth 2017. Mae holl gwsmeriaid yr Harbwr wedi derbyn copi o'r ffioedd arfaethedig a ffurflen cais am angorfa ar gyfer 2017/18.

# Argymhellion Angori Cyngor Gwynedd

Lluniwyd argymhellion a rheoliadau angori Cyngor Gwynedd er mwyn defnyddio'r porthladdoedd yn effeithlon ac er gwella diogelwch cychod sydd wedi angori yn yr harbyrau. Fe wneir hyn drwy reoli lleoliad yr angorfeydd, gosod safonau i'r offer angori a drwy sefydlu archwiliadau rheolaidd a systematig o'r angorfeydd.

Bydd angen sicrhau bod pob angorfa newydd yn cwrdd â'r safonau a argymhellir gan Gyngor Gwynedd cyn cyniateir i'w gosod yn yr Harbwr.

Gosodwyd y safonau i gyflymder gwynt o 60 milltir fôr Grym Beaufort 11. Pe byddai gwyntoedd dros 60 milltir fôr a/neu lanw eithafol cyfrifoldeb deilydd yr angorfa yw cymryd rhagofalon ychwanegol. Ceidw Awdurdod yr Harbwr yr hawl i ofyn i berchennog cwch i gynyddu safon angorfa unrhyw gwch pe byddent o'r farn bod yr isafswm safon yn annigonol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn atebol am unrhyw niwed a achosir.

**Angorfeydd:-**

Ni fydd hyd coes y gadwyn ddaear yn ddim llai na x3 gwaith dyfnder y dwr ar H.W. (H.A.T.). Pe bydd dyfnder y dwr yn H.A.T. yn llai na 5 metr bydd pob coes o'r gadwyn ddaear yn 15 metr o leiaf.

Bydd y gadwyn angori yn x1 gwaith dyfnder y dŵr yn H.A.T. + 2 troedfedd

Bydd dan benwn yn cael eu defnyddio, un fel penwn diog i ddarparu cefnogaeth pe byddai'r penwn wedi ei lwytho yn methu.

Bydd hyd yn penwynau yn ddwywaith y pellter o'r dwr i'r pen blaen a'r pellter o'r pen blaen i'r gleten angori.

Bydd y penwynau â modrwy wedi ei phlethu yn un pen a dolen feddal yn y llall

Dylai fod gan pob penwn offer rhuglo priodol i orchuddio arwynebedd o un droedfedd bob ochr i'r chwerfannau clir blaen.

Bydd bwiau angori yn cael eu cynhyrchu i ddibenion angori cychod a gorau oll os ydynt wedi eu llenwi gydag ewyn. Ni fydd unrhyw fwiau marcio neu glustogau yn cael eu defnyddio.

Bydd pob bwi angori yn cael ei farcio gyda'r rhif angori a gyflwynwyd gan yr Harbwr Feistr.

Bydd yr holl efynnau yn cael eu rhwymo ac/neu wedi eu weldio.

Gosodir y swiflau 2 droedfedd o dan y bwi angori a dylid defnyddio swiflau a luniwyd yn lle swiflau gyredig.

Archwilir yr holl angorfeydd bob blwyddyn ar ddechrau'r tymor hwylio.

Ni fydd unrhyw gwch yn lawnsio i'r angorfa cyn i'r angorfa dderbyn tystysgrif archwilio boddhaol.

Os o ganlyniad i archwiliad bod unrhyw ddolen, gefyn, swifl neu ddarn arall o'r offer angori wedi ei niweidio neu wedi gwisgo a hynny yn draean o'i faint arferol bydd yn cael ei newid yn briodol.

Argymhellir gosod anod sinc ar ben pob cadwyn.

Mae Cyngor Gwynedd yn cadw'r hawl i newid y fanyldeb yma ar unrhyw adeg.

| Manyldeb Isafswm Angorfeydd Cyngor Gwynedd<br>Gwynedd Council Minimum Specification for Moorings | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyd y Cwch<br>Length of Boat | | Angorau<br>Anchors | | Cadwyn<br>Chain | | Penwn<br>Pennant | | | Gefynnau<br>Shackles | |
| Troed.<br>Ft | Metr.<br>Mtrs | Pysgotwr<br>Fisherman | Perfformiad Uchel<br>High Performance | Daear<br>Ground | Cadwyn Angori<br>Riser | Cadwyn<br>Chain | Neilon<br>Nylon | Swifl<br>Swivel | Daear<br>Ground | Cadwyn Angori<br>Riser |
| 0 - 20 | 0 - 6 | 15 Kg | 10 kg | 11 mm | 9.5 mm | 8 mm | 12 mm | 13 mm | 13.5 mm | 11 mm |
| 20 - 25 | 6 - 7.6 | 20 kg | 14 Kg | 14 mm | 11 mm | 9.5 mm | 14 mm | 16 mm | 16 mm | 13.5 mm |
| 25 - 30 | 7.6 - 9.1 | 23 Kg | 15 Kg | 16 mm | 12 mm | 10 mm | 16 mm | 16 mm | 19 mm | 13.5 mm |
| 30 - 35 | 9.1 - 10.7 | 39 kg | 26 Kg | 19 mm | 16 mm | 12 mm | 20 mm | 19 mm | 22 mm | 19 mm |
| 35 - 40 | 10.7 - 12.2 | 64 kg | 42 kg | 26 mm | 19 mm | 16 mm | 24 mm | 25 mm | 28 mm | 22 mm |

## Proposed Mooring Specification Modern Bilge Keel 21 ft Yacht

Yacht ‘Gwynedd Council’ measured for example as: -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Freeboard of hull 0.8 mtr multiplied by beam 2.4 mtr | = | 1.92 | sq mtrs |
| Topsides 1.9 mtr ht multiplied by 0.7 beam | = | 1.33 | sq mtrs |
| Mast 7.5 mtrs multiplied by diameter 0.07 mtrs | = | 0.53 | sq mtrs |
| Rigging 8 stays by 7.5 mtrs by 5 mm dia | = | 0.3 | sq mtrs |
| Roller reefing headsail 7.5 mtrs by 150 mm dia | = | 1.12 | sq mtrs |
| Total area subject to windage | = | 5.2 | sq mtrs |
| | | | |
| Dynamic Air Pressure at 80 Knts Force 12 | = | 105 | kg sq mtr |
| Shape co-efficient of modern sailing boat hull | = | 0.70 | |
| Loading of boat on mooring due to wind forces | | | |
| = Total area by Pressure of air by shape co-efficient | = | 382.2 | Kg |
| Multiply result by 2 to allow for yawing | = | 764.4 | Kg |
| | | | |
| Riser | | | |
| Bradney short link 11 mm max service load | = | 1.5 | Tonne |
| | | | |
| Ground chain | | | |
| Bradney short link 12.5 mm max service load | = | 1.9 | Tonne |
| | | | |
| Shackles to be rated at next nominal size to chain | | | |
| Riser to swivel 13.5mm 16mm Pin working load limit | = | 2.0 | tons |
| Ground chain to Anchor 16mm 19mm pin | = | 3.25 | tons |
| | | | |
| Swivel to be 13mm Working Load Limit | = | 1.6 | tons |

Riser to be equal to depth at H.A.T.
Ground Chain to be 2 times depth at H.A.T.

**Biblography and calcs: -**

Calculations derived from Aero-Dynamics of Sailing (C.A.Marchaj) Pages 168 & 178.

Bradney Mooring and Anchoring.

Anchoring and Mooring (Alain Gree) page 65.

The Ceasars Wife Mooring Explained (Alistair Parker-Rees) article from Practical Boat Owner.

DRAFT

# Mooring Specification Modern Bilge Keel 25 ft Yacht

Yacht 'Gwynedd Council 2' measured for example

| | | | |
|---|---|---|---|
| Freeboard of hull 1.1 mtr multiplied by beam 2.7 mtr | = | 2.97 | sq mtrs |
| Topsides 1.1 mtr ht multiplied by 0.950 beam | = | 1.05 | sq mtrs |
| Mast 8 mtrs multiplied by diameter 0.1 mtrs | = | 0.8 | sq mtrs |
| Rigging 7 stays by 8 mtrs by 5 mm dia | = | 0.28 | sq mtrs |
| Roller reefing headsail 8 mtrs by 150 mm dia | = | 1.2 | sq mtrs |
| Total area subject to windage | = | 6.5 | sq mtrs |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dynamic Air Pressure at 80 Knts Force 12 | = | 105 | kg sq mtr |
| Shape co-efficient of modern sailing boat hull | = | 0.70 | |
| Loading of boat on mooring due to wind forces | | | |
| = Total area by Pressure of air by shape co-efficient | = | 477.75 | Kg |
| Multiply result by 2 to allow for yawing | = | 955.5 | Kg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Riser | | | |
| Bradney short link 12.5 mm max service load | = | 1.9 | Tonne |
| Ground chain | | | |
| Bradney short link 16 mm max service load | = | 3.2 | Tonne |
| Shackles to be rated at next nominal size to chain | | | |
| Riser to swivel 13.5mm 16mm Pin working load limit | = | 2.0 | tons |
| Ground chain to Anchor | | | |
| Swivel to be 16mm Working Load Limit | = | 2.4 | tons |

Riser to be equal to depth at H.A.T.
Ground Chain to be 2 times depth at H.A.T.

**Biblography and calcs: -**

Calculations derived from Aero-Dynamics of Sailing (C.A.Marchaj) Pages 168 & 178.

Bradney Mooring and Anchoring.

Anchoring and Mooring (Alain Gree) page 65.

The Ceasars Wife Mooring Explained (Alistair Parker-Rees) article from Practical Boat Owner.

DRAFT

## Mooring Specification Modern Bilge Keel 31 ft Yacht

Yacht ‘Gwynedd Council 3’ measured for example

| | | | |
|---|---|---|---|
| Freeboard of hull 1.2 mtr multiplied by beam 2.9 mtr | = | 3.48 | sq mtrs |
| Topsides 0.8 mtr ht multiplied by 2.2 beam | = | 1.76 | sq mtrs |
| Mast 11.52 mtrs multiplied by diameter 0.13 mtrs | = | 1.50 | sq mtrs |
| Rigging 6 stays by 11.52 mtrs by 7 mm dia | = | 0.48 | sq mtrs |
| Roller reefing headsail 11.52 mtrs by 150 mm dia | = | 1.73 | sq mtrs |
| Total area subject to windage | = | 8.95 | sq mtrs |
| | | | |
| Dynamic Air Pressure at 80 Knts Force 12 | = | 105 | kg sq mtr |
| Shape co-efficient of modern sailing boat hull | = | 0.70 | |
| Loading of boat on mooring due to wind forces | | | |
| = Total area by Pressure of air by shape co-efficient | = | 657.83 | Kg |
| Multiply result by 2 to allow for yawing | = | 1315.65 | Kg |
| | | | |
| Riser | | | |
| Bradney short link 14 mm max service load | = | 2.4 | Tonne |
| | | | |
| Ground chain | | | |
| Bradney short link 16mm max service load | = | 3.2 | Tonne |
| | | | |
| Shackles to be rated at next nominal size to chain | | | |
| Riser to swivel 16mm 19mm Pin working load limit | = | 3.25 | tons |
| Ground chain to Anchor 19mm 22mm pin W.L.L. | = | 4.75 | tons |
| | | | |
| Swivel to be 19 mm Working Load Limit | = | 3.3 | tons |

Riser to be equal to depth at H.A.T.
Ground Chain to be 2 times depth at H.A.T.

DRAFT

**Biblography and calcs: -**

Calculations derived from Aero-Dynamics of Sailing (C.A.Marchaj) Pages 168 & 178.

Bradney Mooring and Anchoring.

Anchoring and Mooring (Alain Gree) page 65.

The Ceasars Wife Mooring Explained (Alistair Parker-Rees) article from Practical Boat Owner.

## Mooring Specification Modern Bilge Keel 33 ft Yacht

Yacht ‘Gwynedd Council 4’ measured for example

| | | | |
|---|---|---|---|
| Freeboard of hull 1.3 mtr multiplied by beam 3.6 mtr | = | 4.68 | sq mtrs |
| Topsides 1.4 mtr ht multiplied by 2.7 beam | = | 3.78 | sq mtrs |
| Mast 11.52 mtrs multiplied by diameter 0.13 mtrs | = | 1.50 | sq mtrs |
| Rigging 6 stays by 11.52 mtrs by 7 mm dia | = | 0.47 | sq mtrs |
| Roller reefing headsail 11.52 mtrs by 150 mm dia | = | 1.73 | sq mtrs |
| Total area subject to windage | = | 12.16 | sq mtrs |
| | | | |
| Dynamic Air Pressure at 80 Knts Force 12 | = | 105 | kg sq mtr |
| Shape co-efficient of modern sailing boat hull | = | 0.70 | |
| Loading of boat on mooring due to wind forces | | | |
| = Total area by Pressure of air by shape co-efficient | = | 893.76 | Kg |
| Multiply result by 2 to allow for yawing | = | 1787.52 | Kg |
| | | | |
| Riser | | | |
| Bradney short link 16 mm max service load | = | 3.2 | Tonne |
| | | | |
| Ground chain | | | |
| Bradney short link 19 mm max service load | = | 4.5 | Tonne |
| | | | |
| Shackles to be rated at next nominal size to chain | | | |
| Riser to swivel 19mm 22mm Pin working load limit | = | 3.25 | tons |
| Ground chain to Anchor 22mm 25mm pin | = | 6.5 | tons |
| | | | |
| Swivel to be 22 mm Working Load Limit | = | 4.5 | tons |

Riser to be equal to depth at H.A.T.
Ground Chain to be 2 times depth at H.A.T.

**Biblography and calcs: -**


Calculations derived from Aero-Dynamics of Sailing (C.A.Marchaj) Pages 168 & 178.


Bradney Mooring and Anchoring.

Anchoring and Mooring (Alain Gree) page 65.


The Ceasars Wife Mooring Explained (Alistair Parker-Rees) article from Practical Boat Owner.

DRAFT


18mm Chain x 15mtr.
19x22mm Shackle.
1 1/4 Ring.
Set Under Mesh.
2mtr x 1mtr x .550.
C 35 Conc.
Mesh 2 Layers
100mm Cover.
Concrete Block
2 Ton. 16/12/16.
1.2 m/1.5 m in Water.


3A Proposed Moorings Plan Giving 28 Moorings
Plus Six More If Required In The Future
Existing Moorings Are From 2–12.
Unable To Use Due To P2. 13 to 15
27 to 32 Are Only Suitable In Neap Tide.
Depth Of Water At HWS 38' to 27'.
Sussex Cable

Tud. 24


EXISTING LAYOUT. 2016 WITH ALTERATIONS FOR 2017.
2017.
LINK LINK FITTED AT 5mts.
13 BLOCKS TOTAL WEIGHT 15 TON.

### *Harbwr Abermaw Harbour*
### *2017/18*

| **Eithrio T.A.W** | **2016-17** | | **2017-18** | **Prices exclude V.A.T** |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Pob Cwch gan gynwys Ysgraff | **28.02** | | **28.58** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues – All Craft including Ferries |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | **5.05** | | **5.15** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith | **25.47** | | **25.98** | Penrhyn Point Mooring License |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW) | **----------** | | **25.00** | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt) |
| | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | **Fel rhestr lansio** | | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain, peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | **-**<br>**8.33**<br>**50.00** | | **Fel rhestr lansio** | **Small boats engine, max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| **Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod** | | | | **Visiting Vessels – Daily or part of day** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | **5.00** | | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | **8.33** | | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **24.26** | | **25.72** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | |
| Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr | **24.26** | | **25.72** | Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter |
| Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | **54.13** | | **55.21** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Pysgotwyr llawn amser<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol harbwr<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol eraill<br>Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel<br>Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M² yr wythnos. | **294.11**<br>**316.90**<br>**366.16**<br>**93.04**<br>**4.24** | | **299.99**<br>**323.24**<br>**373.48**<br>**94.90**<br>**4.32** | Harbour compound (per annum) – Full time fishermen<br>Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users<br>Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.<br>Penalty Costs – Removal of refuse<br>Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M² per week. |
| | | | | |
| Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi<br>Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr | **5.54**<br><br>**5.60** | | **5.71**<br><br>**5.71** | Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September<br>Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs |
| Rhent llogi angorfa Abermaw (os ar gael) | **249.39** | | **254.37** | Mooring Rental Abermaw (if available) |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol/Rule 1/18** | | **Rheol/Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary |



Draft / provisional

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2017 – 31/03/2018**

**Holl ffioedd ddim yn cynnwys TAW / All fees are exclusive of VAT**



| **Ffi Adnewyddiad** (Trwyddedau Bach) | **2016/17** | **Renewal Fees** (Small Permits) |
|---|---|---|
| **Ail-cofrestru Blynyddol** | £25.00 | **Annual Re-registration** |
| **Ceisiadau Llestr Newydd** (Trwyddedau Mawr a Bach) | | **New Vessel Applications** (Large and Small Permits) |
| **Cofrestru Blynyddol** | £33.33 | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol**<br>**Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)** | £8.33<br>£10.83 | **Daily launch – General Slipways/Beaches**<br>**Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)**<br>**Cynnwys Ffi Cofrestru** | £116.67 | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)**<br>**Inclusive of Registration Fee** |
| **Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.**<br>**In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.** | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli** | £33.33 | **Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli** |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig**<br><br>**Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio** | £20.83 | **Annual Registration Fee – In Person Application Only**<br><br>**At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection** |

| Morwrol a Pharciau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DG54-ABERMAW | | Diwedd Ionawr 2017 | | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT | YMRWYMIAD | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 49,370 | 36,573 | 4,626 | (8,171) |
| | | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 5,230 | 1,998 | 2,233 | (1,089) |
| | | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 720 | 274 | 246 | (200) |
| | | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 9,560 | 4,800 | 2,760 | (2,000) |
| | | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (45,480) | (31,595) | (3,152) | 10,733 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 19,400 | 12,050 | 6,713 | (727) |
| | | | | | | |
| | | | | | | |